# Papur Pawb

Pris: 50c

Hydref 2023 Rhif 492




Tîm pêl-droed dan 11 oed Tal-y-bont.......gweler tud.12


tud 3 Pobl a Phethe

tud 4 Newyddion

tud 11 Un dyn – un job

tud 12 Anghenfil o Râs





## Ydy Llywodraeth Cymru wedi anghofio Eglwys-fach a Ffwrnais?

**Ymysg y ddadl fawr ynglŷn â'r terfyn cyflymder newydd o 20mya mae un ardal wedi cael ei anghofio, ac mae nifer o drigolion Eglwys-fach a Ffwrnais yn anhapus iawn.**

Ers dros 30 mlynedd mae'r ddau bentref wedi ymgyrchu dros ddiogelwch cerddwyr yn y pentrefi hyn, heb newid i'r terfyn cyflymder er bod dwy farwolaeth wedi digwydd ar y ffordd yn ystod y cyfnod hwnnw.

Mae'r Cynghorydd Ruth Stevenson wedi creu deiseb mewn ymgais i arafu cyflymder traffig drwy bentrefi Ffwrnais ac Eglwys-fach sydd yn gofyn i Lywodraeth Cymru adolygu'r terfynau 40 mya drwy'r pentrefi, i alluogi trigolion i gerdded yn ddiogel a gwella lles.

Nid oes palmant ar y rhan fwyaf o'r ffordd rhwng Ffwrnais ac Eglwys-fach felly mae'n rhaid i blant sy'n dal bysiau ysgol, trigolion yn ymweld â'u cymdogion, a phentrefwyr hŷn sy'n dal y bws, gerdded ar brif-ffordd brysur yr A487.

Mewn rhai mannau nid oes digon o le i ddau gar basio ar y ffordd felly mae'n rhaid i fodurwyr arafu a dod i stop i osgoi'r cerddwyr hyn.

Mae'r ddeiseb yn esbonio rhesymeg Llywodraeth Cymru ar gyfer y cyfyngiadau 20 mya drwy ardaloedd preswyl wrth sôn: "Mae'r dystiolaeth o bob rhan o'r byd yn glir iawn – bydd cyflymderau gostyngol yn lleihau gwrthdrawiadau, yn arbed bywydau ac yn lleihau anafiadau – gan helpu i wella ansawdd bywyd a gwneud ein strydoedd a'n cymunedau lleol yn fwy diogel i bawb."

Yn seiliedig ar hyn mae'r ddeiseb yn gofyn i Lywodraeth Cymru adolygu'r terfyn cyflymder drwy bentrefi Eglwys-fach a Ffwrnais a'i ostwng o 40 mya i 30 mya.


**Iwan Jones**

Gwasanaethau Pensaerniol

Cynlluniau ar gyfer adeiladau newydd, estyniadau ac addasiadau

Gellimanwydd, Talybont, Ceredigion SY24 5HJ

helen.iwan@btinternet.com

01970 832760

**James Memorials**

Am

GOFEBAU ARBENNIG
BEDDARGRAFFIADAU
ADNEWYDDU O SAFON
ARWYDDION AR DAI A BUSNESAU

*Gofynnwch am bamffled rhad ac am ddim*

James Memorials
Vicarage Crossing,
Llandre, Bow Street
Ffôn: (01970) 820 111

## Papur Pawb


**Golygydd Cyffredinol:**
Gwyn Jenkins
**(01970) 832560**
Maesgwyn, Tal-y-bont, Ceredigion
**golygydd@papurpawb.com**

**Tynnu lluniau:**
Cysyllter â golygyddion y mis

**GOHEBYDDION LLEOL**

**Tal-y-bont:**
Myfanwy James, Bryn Eglur, Tal-y-bont
**832592**

**Parsel Henllys:**
Rhys Huws, Llwyn Onn
**832076**

**Bont-goch:**
Cathryn Lloyd-Williams
**cat_yfoel@hotmail.com**

**Llangynfelyn:**
Nigel Callaghan, Hafan, Tre Taliesin
**832573**

**Eglwys-fach/Ffwrnais:**
Non Griffiths
**(01654) 781264**

**Rhwydweithiau cymdeithasol:**
Ceri Morgan

**CYMDEITHAS PAPUR PAWB**

**Cadeirydd:**
Catrin MS Davies, Simne Wen, Tal-y-bont
**832697**

**Is-gadeirydd:**
Lisa Tomos, Awelon, Pentrebach
**832773**

**Ysgrifennydd:**
Rhian Evans, Glanrafon, Tal-y-bont
**832344**

**Trysorydd:**
Rebecca Williams, Mur Mawr, Tal-y-bont
**832093**

**Tanysgrifiadau:**
Bleddyn Huws, Henllan, Tal-y-bont
**832448**

**Hysbysebion:**
Trish Huws, Llwyn-Onn, Tal-y-bont

**Dylunio:**
Iolo ap Gwynn, Ceri Jones, Sion Pennant

**Plygu'r Papur:**
Gwenllïan Parry-Jones; Beti Jenkins

**Dosbarthwyr:**
Lynn Ebenezer; Gwenllïan Parry-Jones; Carys Briddon, John Evans

*Cyhoeddwyd gan Gymdeithas Papur Pawb. Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru.*

CYMRAEG

am yr holl wybodaeth am Bapur Pawb ewch at ein gwefan…
**www.papurpawb.cymru**
hefyd dilynwch ni ar drydar a gweplyfr (@papurpawb)


## GOLYGYDDION

Golygyddion y rhifyn hwn oedd Llio a Cathryn, gyda Iolo'n dylunio. Diolch iddynt. Golygyddion rhifyn Tachwedd fydd Helen (joneshelen1d@gmail.com) gyda Lyn a Siwan yn ei chynorthwyo am y tro cyntaf. Croeso iddynt. Y dyddiad cau yw 3 Tachwedd a bydd y papur ar werth ar 10 Tachwedd.


# argraffu
lleol a rhesymol



y lolfa
Talybont Ceredigion SY24 5HE
01970 832 304 / **www.ylolfa.com**
Holwch Paul am bris: paul@ylolfa.com




NICEIC APPROVED CONTRACTOR

# Alun Davies
## Contractiwr Trydanol

**M** 07703 169813

Islwyn, Bow Street, Ceredigion SY24 5AR
**E** alun.davies142@btinternet.com


# DYDDIADUR

### HYDREF

15 **Bethel** 10 Cyrddau Pregethu yn Bethel Aberystwyth
**Rehoboth** 11.15 Bugail
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**RSPB Ynys Hir** 2.00 Taith Lissa Morgan
16 **Merched y Wawr Tal-y-bont a'r Cylch** 'Y Wiwer Goch' (Sarah Purdon)
18 **Bore Coffi** 10.30–12 Neuadd Llanfach, Taliesin
19 **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 7 Gweddi Hwyrol
21 **Dal ati** 10.30–11.30 Cletwr
22 **Bethel** 10 Geraint Evans.
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
26 **Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 7 Hwyrol Weddi
27 **Sesiwn Nos Wener** (Delwyn Siôn) 8 Llew Gwyn
**Bingo Sioe'r Cardis** 7.30 Neuadd Penllwyn, Capel Bangor
28 **Dal ati** 10.30–11.30 Cletwr
29 **Bethel** 10 Uno â Seion, Irfon Roberts
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
**Parti Calan Gaeaf Clwb Meithrin Tal-y-Bont** Neuadd Goffa Tal-y-bont 4.00 - 6.00

### TACHWEDD

4 **Dal ati** 10.30–11.30 Cletwr
5 **Bethel** 10 Uno â Seion, Rhidian Griffiths
**Rehoboth** 2 Bugail
**Eglwys Sant Mihangel, Eglwysfach** 9.30
12 **Bethel** 10 Richard Lewis
**Gwasanaeth Sul y Cofio** 10.45 Neuadd Goffa Tal-y-bont
**Eglwys Llangynfelyn yn Llanfach** 2.15 Sul y Cofio
17 **Cyngerdd Hwyliog Sioe'r Cardis** Adran yr Urdd Aberystwyth 7.00

### BOB WYTHNOS

**Cletwr**
Dydd Mawrth 1.00 – 4.00
'Clonc a Gweu'

**Neuadd Llanfach**
Dydd Llun Amser Cinio
Dosbarth Yoga Sarah McKenna
Dydd Iau 1.00-3.00
Clonc a chwarae gyda'r Grŵp Rhieni a Phlant ifanc.

**Yr Ystafell Haearn**
Bore Iau.
Dosbarth Pilates Lesley Lewis.
Nos Iau.
Dosbarth yoga Hatha Sarah McKenna.

Cofiwch anfon manylion am weithgareddau eich mudiad neu'ch sefydliad at Carys Briddon, carysbriddon@btinternet.com 01970 832478 o leiaf ddeng niwrnod cyn y rhifyn nesaf o'r papur.

# Pobl a Phethe



Priodwyd Sion Aled Hopkins gyda Gwennan Mair Evans, ar y 16 o Fedi ym Mhlas Nanteos. Dymunwn yn dda i'r pâr priod.



Llongyfarchiadau i Dewi Jenkins (Tŷ'n Graig) a Sara Elin Lewis ar eu dyweddïad.

**Llongyfarchiadau**
Llongyfarchiadau i Dr Rhian Hayward, Coetmor, Tal-y-bont, ar gael ei dewis yn gadeirydd Pwyllgor Asiantaeth Safonau Bwyd Cymru. Mae hefyd yn cynrychioli Cymru ar Fwrdd yr Asiantaeth Safonau Bwyd y Deyrnas Unedig. Yn ôl Dr Hayward: 'Rwy'n falch iawn o gael ymuno â Bwrdd ASB a chefnogi eu gwaith pwysig yn diogelu iechyd y cyhoedd a buddiannau defnyddwyr mewn perthynas a bwyd'. Pob dymuniad da iddi yn y gwaith hollbwysig hwn.

Llongyfarchiadau i Sian Stacey a Mark Carter, o bentre Taliesin, ar enedigaeth ei merch Medi Manaw ym mis Medi.

Llongyfarchiadau i Arwyn Evans, Cefngweiriog a'i bartner Rachel ar enedigaeth ei merch Millie Rose

Llongyfarchiadau i Dafydd Evans, Cefngweigiog a'i bartner Ruth ar enedigaeth ei merch Ella Haf.

Llongyfarchiadau i Ioan Joseph a basiodd ei brawf gyrru yn ddiweddar.

Newyddion hyfryd a llongyfarchiadau i Caroline a Steve Evans, Elgar House, ar ddod yn Famgu a Thadcu eto.

Llongyfarchiadau i Ellen ap Gwynn ar ennill Gwobr Cyfraniad Arbennig yng nghynhadledd flynyddol Plaid Cymru yn Aberystwyth am ei holl waith caled dros y blynyddoedd.

**Gwellhad Buan**
Dymuniadau gorau i Maureen Jenkins a fu yn yr ysbyty yn Aberdeen tra yn ymweld â theulu yn yr Alban.

Trist clywed bod Evan Evans, Tynrhelyg, wedi bod dan driniaeth ac rydym yn falch clywed ei fod yn gwella.

**Dathliadau**
Penblwydd hapus i Ceri Morgan a ddathlodd ben-blwydd arbennig yn ddiweddar.

**Profedigaeth**
Cydymdeimlwn â theulu Margaret Myrtle Williams, Maesmwyn, a fu farw ddiwedd Awst.

Cydymdeimlwn â Jessica, Siân a Becky ar farwolaeth eu mam Mrs Sheila Haynes, Cefn Cottage, Tal-y-bont. Cynhaliwyd gwasanaeth angladdol iddi yn Amlosgfa Aberystwyth.

Cydymdeimlwn â Lynne Regan, Taliesin a'i theulu a ffrindiau ar golled ei phartner Derval Casey.

**Diolch**
Dymuna Jessica, Siân a Becky ddiolch yn ddiffuant i bobl caredig Tal-y-bont a fu'n holi am eu mam tra bu yn Ysbyty Bronglais ac am eu cydymdeimladau ar ôl ei cholli ar 18 Medi.

**Deiseb**
Mae'r Cynghorydd Ruth Stevenson wedi creu deiseb mewn ymgais i arafu cyflymder traffig drwy bentrefi Ffwrnais ac Eglwys Fach. Mae'r ddeiseb i'w gweld yma : https://deisebau.senedd.cymru/deisebau/245832

**Llongyfarchiadau i bobl ifanc yr ardal dros yr haf, dyma rhai o'r llwyddiannau:**
Finn Langley, Y Plas ac Efa Fflur Sanders-Jones, Penrhyngerwyn ar eu canlyniadau TGAU. Pob lwc i Finn yng Ngholeg Ceredigion ac i Efa yn y 6ed ym Mhenweddig.

Llongyfarchiadau i Jasmin Berry ar ei chanlyniadau lefel A a phob lwc iddi ym Mhrifysgol Bath Spa.

Pob lwc i Oisín Lludd a Nadine Young, Bont-Goch ar eu canlyniadau lefel A, Joiwch yn y Brifysgol

Pob lwc i Ben Philips sy'n mynd i Brifysgol Plymouth ar ôl blwyddyn "gap".

Llongyfarchiadau i Tomos Jenkins, Ynysgreigiog ar ennill ei radd B.A. Gwyddor Chwaraeon ym Mhrifysgol Caerdydd. A gwych ei weld yn ôl yn yr ardal i astudio ar gyfer TAR yn Aberystwyth.

Llongyfarchiadau i Alwenna Jenkins, Ynysgreigiog am raddio fel nyrs milfeddygol. Rydyn ni'n ei gweld yn aml yn ei gwaith ar y rhaglen Y Fets ar S4C.

Llongyfarchiadau i Dylan Langley am ennill ei radd Meistr o Brifysgol Exeter.




Llywydd Rhanbarth Ceredigion, Megan Mai, yn cyflwyno tarian i Rhian Nelmes, Clwb Gwawr Y Pennau ac Ysgrifennydd newydd Rhanbarth Ceredigion, am gynnydd aelodaeth mwyaf y Rhanbarth 22-2.

# Rhinoseros

Ymhlith yr actorion sy'n ymddangos yn y ddrama Rhinoseros, cynhyrchiad newydd Theatr Genedlaethol Cymru, mae Ioan Gwyn, Maesgwyn, Tal-y-bont gynt. Mae'r ddrama gan Ionesco wedi'i haddasu gan Manon Steffan Ros ac '...yn llawn hiwmor annisgwyl a thensiwn hunllefus; mae Rhinoseros yn sylwebu ar gymdeithas, eithafiaeth a sut y gall casineb ledaenu fel feirws.'

Mae'r ddrama i'w gweld mewn theatrau ar hyd a lled Cymru yn ystod yr hydref, gan gynnwys yn Theatr y Werin, Aberystwyth, ar 4 Tachwedd.

# Eglwys-fach

Fel canlyniad i'r Arddangosfa ffrogiau priodas a bedydd, a gynhaliwyd am wythnos yn yr Eglwys ar 24 Awst, codwyd y swm sylweddol o £809, at yr Eglwys, ac elusennau lleol. Llongyfarchiadau i Alison Swanson am ei hysbrydoliaeth, ac i'r aelodau a ffrindiau ffyddlon a fu yn eu chynorthwyo. (gweler erthygl yn Papur Pawb, Medi 2023)

Cynhaliwyd bore coffi yn yr Ystafell Haearn, ar fore Sadwrn, y 30ain o Fedi, a daeth llawer o bell ac agos, i gefnogi. 'Roedd pawb wrth ei bodd yn cymdeithasu, a mwynhau paned a chacen, ac mae'n diolch i bawb a fu yn brysur yn pobi, a gweini wrth y byrddau. Codwyd y swm anrhydeddus o £267 at *Macmillan*.

## Clwb Celf Cletwr




Mae Clwb Celf Cletwr wedi bod yn llwyddiant mawr, gyda'r plant yn arbrofi gyda siarcol yn yr wythnos gyntaf a lluniau dyfrlliw yn yr ail, o dan arweiniad arbennig yr artist Charlie Carter, gyda chymorth Lindsey Glover. Bydd y plant hefyd yn creu celf fydd yn rhan o'r prosiect animeiddio digidol. Mae'r Clwb Celf yn rhedeg am 10 wythnos, a chynigwyd diolch am y gefnogaeth gan Gronfa Anna Evans a Chronfa Eleri ar gyfer adnoddau.

## Cyngor Cymuned Ysgubor y Coed



Efallai bod rhai ohonoch wedi sylwi ar yr arwyddion newydd a godwyd ger Tŷ Hir a Lôn Pharc Lodge. Mae hwn wedi bod yn fater parhaus i'r Cyngor Cymuned a gychwynnwyd gan y cyn cynghorydd Mair Jenkins, Ynyseidiol nôl yn 2018. Y gobaith yw y byddant yn annog gyrwyr i arafu ar y darn troellog hwn o'r A487.

# Atgofion y Plwyf



Cafwyd sesiwn wych ar ddydd Sul 17eg gyda 14 o bobl yn cyfrannu eu hatgofion a hanesion y dyddiau a fu yn hen ysgol Llangynfelyn. Diolch i bob un o'r cyn-ddisgyblion a beintiodd luniau o '*Cockletown*', plismyn gyda lampau, a'r dyddiau gyda faciwîs rhyfel.

Mae dal cyfle i gymryd rhan ym mhrosiect Animeiddio Digidol Cletwr trwy anfon nodyn llais o'ch atgofion o'ch ffôn smart atom. Gyrrwch ffeil i events@cletwr.com.


# Awdur Lleol yn arwain taith

"Bydd awdur lleol Lissa Morgan, (Tre'r Ddôl gynt) yn rhedeg digwyddiad yn Ynys Hir i ddathlu ei nofel diweddaraf "*The Warrior's Reluctant Wife*". Dyma stori ramant hanesyddol yn seiliedig yn ein hardal ni yn y 12fed ganrif am Rhianon ferch Cadwgan, sy'n wraig newydd i Peredur ab Eilyr. Mae o'n ryfelwr ym myddin yr Arglwydd Rhys ac yn geidwad Castell Abereinion, sydd yn sefyll ar y ffin rhwng Ceredigion a Gwynedd fel amddiffynfa rhag ymosodiad gan Owain Gwynedd. Bydd Lissa yn sgwrsio am y llyfr, ac yn arwain taith tywys i ymweld â'r lleoliad sy'n dod dan sylw yn y nofel ac yn darllen dyfyniadau.

Mae'r daith yn cychwyn o'r Ganolfan Ymwelwyr Ynys Hir am 2 o'r gloch, Dydd Sul, 15eg o Hydref. Bydd copïau o'r llyfrau, wedi'u arwyddo, ar gael ar y diwrnod, ac o Cletwr yn y dyfodol agos. Cost y daith yw £4.75 y pen, ac mae rhaid bwcio gyda'r RSPB, trwy'r ddolen yma https://events.rspb.org.uk/events/55149

## Llythyr R S Thomas

Tra i Dr Delyth Badder agor llyfr o'r enw *An Essay on the Welsh Saints* gan y Parchedig Rice Rees (1836) yn ddiweddar, fe syrthiodd allan lythyr gan y bardd enwog Y Parch R S Thomas, cyn-ficer Eglwys-fach. Syfrdanwyd Dr Badder, sy'n byw ym Mhontypridd ac yn gasglwr hen lyfrau, gan ei darganfyddiad.



Eglwys Fach. Machynlleth. Maldwyn.

Annwyl Mrs Huws.

Diolch yn fawr am eich llythyr caredig. Ni wnaed yr eglwys yma'n eglwys y plwyf tan ddiwedd y ganrif ddiwethaf. Capel anwes dan Lanfihangel Genau'r Glyn ydoedd cyn hynny. Efallai mai dyna'r rheswm.

Yn gywir iawn

R. S. Thomas.

9.ix.64

Mae'r llythyr, sy'n dyddio o 1964, wedi'i gyfeirio at Gwladys Tobit Evans, merch yr awdur Henry Tobit Evans, sydd yn amlwg wedi bod yn ymchwilio i hanes eglwysi'r sir ac wedi derbyn gwybodaeth gan R S Thomas am ei blwyf ef.

Gyda llaw, mae Dr Badder newydd gyhoeddi llyfr ar ysbrydion Cymru, sef *The Folklore of Wales: Ghosts*.

## Sesiwn Nos Wener


Gai Toms

Nos Wener olaf Mis Medi cafwyd noson Sesiwn Nos Wener ddifyr iawn yn Y Llew Gwyn. Gai Toms o Flaenau Ffestiniog oedd yn perfformio. Cawsom ddetholiad o'i ganeuon poblogaidd a chlywed rhai newydd. Datgelodd nifer o straeon diddorol am ardal y Blaenau a Thanygrisiau sy'n gefndir i'w ganeuon. Delwyn Sion fydd y gwestai nesaf ar y 27ain o Hydref. Gwelwn ni chi yno,




# Y Llew Gwyn



The White Lion pub in Talybont is a good place to stop for a pint on the way to Borth. Francesca Jones for The New York Times

**Mae'r Llew Gwyn, Tal-y-bont, wedi bod yn y newyddion yn ddiweddar. Dros yr haf ymddangosodd cyfeiriad at y dafarn a llun yn y *New York Times* mewn erthygl gan Francesca Jones. Roedd hithau wedi galw yn y dafarn am beint a brechdan ar ei thaith gerdded i Borth ac wedi'i phlesio gan y gwasanaeth yno. Yn ôl capsiwn i'r llun roedd y dafarn '*yn good place to stop*'.**

Mae'r Llew Gwyn hefyd wedi'i gydnabod yn y *Good Beer Guide* am 2024. Mae'r Llew yn cael ei ddisgrifio fel tafarn gymunedol go iawn yn ganolog i fywyd y pentref.

Llongyfarchiadau i Gareth a'i dîm ar gynnal tafarn mor boblogaidd a chroesawgar.

## Newyddion Cyngor Cymuned Llangynfelyn

Er na gyfarfu'r Cyngor ym mis Awst bu'r Cynghorwyr yn brysur iawn dros yr haf yn gweithio dros eu cymuned gan gynnwys cefnogi'r gwaith gwych yng Ngardd Gymunedol Llanfach sydd wedi ennill Gwobr Rheoli Tir Cymunedol. Llongyfarchiadau i bawb fu'n rhan o'r gwaith caled.

Bu ras peli llwyddiannus hefyd i godi arian i wneud gwaith atgyweirio yn Neuadd Llanfach a diolch i'r holl blant fu'n rhan o gasglu'r peli ar ôl y ras!

Cofiwch fod cyfle am Goffi a Chlonc bob trydydd Mercher o'r mis am 10:30 a chroeso cynnes i bawb.

Gan Teresa Jones, Clerc

# Baneri ar y Traethau



Bu sawl aelod Yes Cymru o ardal Papur Pawb ar draeth y Borth ar fore heulog yr 8fed o Hydref, ymhlith criw mawr o aelodau eraill o ganghennau YC Gogledd Ceredigion a Machynlleth. Pwrpas y digwyddiad oedd chwifio baneri i ddenu sylw at ymgyrch Yes Cymru i drosglwyddo Stadau'r Goron yng Nghymru i Lywodraeth Cymru, fel sydd wedi digwydd eisoes yn yr Alban a Gogledd Iwerddon. Mae Stadau'r Goron yng Nghymru yn ennill dros £850 miliwn y flwyddyn, sy'n mynd i'r Trysorlys yn Llundain, gyda 25% yn mynd i Frenin Siarl. Roedd hyn yn dilyn taith i Fangor gan nifer o gefnogwyr lleol bythefnos ynghynt i ymuno â 10,000 o bobl mewn gorymdaith a rali dros annibyniaeth. Mae grŵp Gogledd Ceredigion wrthi'n trefnu cyfarfod cyhoeddus gyda siaradwyr gwadd yn y dyfodol agos.

# BORE COFFI



Daeth nifer o bobl ynghyd ar fore stormus i'r Bore Coffi cyntaf a drefnwyd gan Bwyllgor yr Henoed yn Neuadd Llanfach, Taliesin, ar fore Mercher, 20 Medi. Cynhelir Bore Coffi yn Llanfach ar y trydydd dydd Mercher o'r mis o hyn allan, ac estynnir croeso cynnes i bawb.

## Clwb Cant Neuadd Llanfach

Enillwyr mis Medi:
Rhif 024 Jan Novak
Rhif 079 Michelle James
Rhif 023 Sylvia Cartwright

## CYMDEITHAS Y CHWIORYDD REHOBOTH




Croesawyd yr aelodau gan Carys Briddon i festri capel Rehoboth, Tre Taliesin, ar brynhawn dydd Mawrth, 12 Medi, ar gychwyn tymor newydd o'r Gymdeithas. Eglurodd fod Eiriona Metcalfe yn dymuno rhoi'r gorau i'w swydd ar ôl deng mlynedd o wasanaeth, ond hyfryd oedd nodi fod Meinir Fleming wedi cytuno i gymryd ei lle. Derbyniwyd ymddiheuriadau gan y ddwy am fethu mynychu'r cyfarfod heddiw.

Meinir Wyn Edwards, Llandre, oedd y wraig wadd am y prynhawn, a bu'n sôn sut y bu iddi hi a'i merch Efa benderfynu i sefydlu y cylchgrawn *Cara* yn 2019. Gan nad oedd cylchgrawn Cymraeg arall ar gael i ferched, fe welwyd fod bwlch yn y farchnad. Cyn ei lawnsio, bu tipyn o waith trefnu a thrafod nifer o bwyntiau am gynnwys, diwyg a maint y cylchgrawn cyn penderfynu ar y ffurf terfynol. Mae'n gylchgrawn sy'n rhoi llais i fenywod Cymru gyda cholofnwyr a chyfranwyr rheolaidd, gyda thudalennau lliwgar yn llawn erthyglau ar destunau amrywiol megis ffasiwn, bwyd, diod, iechyd, materion cyfoes, merched crefftus, merched yn eu gwaith, a llawer mwy. Mae *Cara*'n cael ei gyhoeddi dair gwaith y flwyddyn, ac mae'n dda medru dweud i'r fenter fod yn llwyddiant. Diolchwyd i Meinir am ddod atom i sôn am y fenter a sicrhaodd fod merched Cymru yn medru mwynhau cylchgrawn mor safonol yn eu mamiaith.



# Clwb Hen Beiriannau

**Dyma fwrw golwg yn ôl dros weithgareddau'r clwb dros yr Haf.**

Ar nos Fercher 14 Mehefin cafwyd ymweliad â Felin Ganol, Llanrhystud. Dyma felin flawd sy'n dal i falu yn y ffordd draddodiadol gan ddefnyddio'r rhod ddŵr i weithio'r peiriannau sydd yno ers blynyddoedd maith. Perchnogion y felin yw Andy ac Anne Parry ac maent wedi gwneud llawer o waith i adnewyddu a chadw'r lle i weithio. Bydd rhai o ddarllenwyr Papur Pawb yn cofio Andy pan oedd yn byw yn y Goitre, Llangynfelyn. Bu yno am tua deg mlynedd tan 1983.

Ar 12 Gorffennaf ymwelodd rhai o'r aelodau â Chanolfan Natur Dyfi ger Derwen Las, lle mae gweilch y Pysgod wedi dychwelyd i nythu. Diolch i Emyr a Jenine am eu croeso ac am esbonio am weithgareddau'r prosiect yn enwedig gan fod yr ymweliad tu allan i oriau agored arferol. Trwy lwc roedd yr amseru'n berffaith; gwelwyd un o'r Gweilch (y gwryw mae'n debyg) yn dychwelyd i'r nyth gyda physgodyn yn ei grafangau i fwydo'r cywion. Diolch eto.

Daeth sawl aelod i arddangos eu tractor neu gar a.y.y.b. yn Sioe Tal-y-bont er gwaetha'r mwd! Diddorol oedd gweld peiriant malu cerrig ("mochyn" ar lafar) yn gweithio. Mae Peter, ein cadeirydd, wedi ymgymryd â threfnu'r adran hen beiriannau yn Sioe Tal-y-bont. Dyma swydd bu Ifan Carreg Cadwgan yn gwneud am flynyddoedd a diolch iddo am ei gyfraniad.

Roeddem nôl yn y Llew Gwyn ar nos Fercher 13 Medi. Daeth Stephen Owen, Rhoslan atom i drafod a dangos lluniau am ei waith fel cynllunydd a gwneuthurwr pob math o bethau o bren. Gwelsom luniau llawer o ddodrefn arbennig iawn. Nid yw'n hoff o linellau syth felly rhaid defnyddio pob math o offer – traddodiadol a modern. Mae llawer o'i waith yn cyfleu neges Gristnogol ac i'w gweld mewn eglwysi lleol ac ar draws Prydain ac ymhellach.

Mae'n amhosib gwneud cyfiawnder â'i fedrusrwydd mewn pwt o erthygl fel hyn. Byddai modd llenwi Papur Pawb cyfan! Ond gweler Papur Pawb Tachwedd 2018 ble'r ymddangosodd erthygl yn rhoi peth o gefndir ef a'i waith. Diolch iddo am ein diddanu.

Ar ddydd Sadwrn 23 Medi, cynhaliwyd taith dractorau. Daeth tua pymtheg tractor ac ambell gerbyd 4×4 i wneud y daith. Roedd yn ddiwrnod braf a sych. Trefnwyd raffl cyn cychwyn am 11.00 y bore. Teithiwyd o sgwâr Tal-y-bont a mynd dros Nant y Moch i Bonterwyd ac ymlaen i Bontarfynach.

Dychwelwyd dros Pen Dam a lawr i Benrhyncoch ac yna dilyn y ffordd gefn yn ôl i Dal-y-bont erbyn tua 5.00 o'r gloch. Cafwyd lluniaeth yn y Llew Gwyn ac yna tynnwyd y raffl. Bydd unrhyw arian a godwyd yn sgil y daith yn mynd i Adran Chemotherapi Bronglais. Nid yw'r swm terfynol gennyf wrth ysgrifennu hwn ond gobeithio adrodd yn yr erthygl nesaf.

John Evans






# Cyngor Cymuned Ceulanamaesmawr

**Cafwyd tipyn o hwyl yn y Noson Bingo ddiwedd mis Medi, gyda'r trigolion lleol yn dangos unwaith eto eu bod yn barod i gefnogi'r ymgyrch i godi arian ar gyfer y Cae Bach. Diolch yn fawr i Atebol am noddi'r noson, i Catrin a Mererid am drefnu a chynnal y gemau, ac i bawb a roddodd help llaw i sicrhau bod popeth yn mynd yn esmwyth. Llwyddwyd i godi'r swm parchus iawn o £600. Cofiwch ddod i'r noson Cwis, Caws a Gwin a gynhelir yn y Neuadd Goffa ar 23 Tachwedd – bydd rhagor o fanylion ar gael maes o law.**

Bydd y contract ar gyfer cynnal a chadw'r glaswellt a'r sietynnau sy'n eiddo i'r Cyngor Cymuned yn dod i ben yn y gwanwyn, a bydd contract tair blynedd newydd yn dechrau ym mis Ebrill 2024. Felly, os oes gennych ddiddordeb mewn tendro am y gwaith, mae croeso i chi gysylltu â'r Clerc am fanylion a chyflwyno eich cais erbyn 24 Tachwedd. Mae'r manylion i'w gweld yn yr hysbysfyrddau hefyd – cyfle i ddefnyddio hysbysfwrdd newydd Bont-goch a gafodd ei osod yn ddiweddar.

Byddwch yn falch o glywed bod yr afonydd lleol yn lân iawn ar hyn o bryd, gyda digon o rywogaethau dangosol yn bresennol a Grŵp Llifogydd Tal-y-bont yn cadw llygad barcud arnyn nhw. Gobeithio y bydd hyn yn parhau trwy'r gaeaf yn sgil y cyngor a gafwyd gan Dŵr Cymru yn y cyfarfod cyhoeddus ar 10 Hydref mewn perthynas ag atal llifogydd.

## Diweddariad am y Cynllun Band Eang Ffeibr Cymunedol ar gyfer Ceulanamaesmawr

Yn gynharach yn yr wythnos cyhoeddodd y cwmni *Voneus* eu bod nhw wedi caffael *Broadway Partners*. Mae hwn yn dilyn pecyn o ariannu newydd hyd at £250m sydd yn cael ei ddarparu gan gyfranddalwyr ac uwch fenthycwyr. Rhan arall o'r pecyn yw y bydd y cwmniau *SWS Broadband* a *Cadence Networks* yn cael eu uno i weithrediadau *Vone*us.

Nid oes unrhyw wybodaeth hyd yma am ddyfodol y cynlluniau a oedd gan *Broadway* i gyflwyno ffeibr yng Ngheredigion.

Am rhagor o wybodaeth mae gwefan sef: https://sites.google.com/view/ffeibrceulanamaesmawrfibre

Neu os oes gennych unrhyw gwestiynau am y cynllun mae croeso i chi ebostio ni ar: ceulanband@gmail.com

# Merched y Wawr Tal-y-bont a'r cylch

**Croesawodd Fal ni i'n cyfarfod cyntaf o'r tymor ar 18 o Fedi. Anfonodd ein dymuniadau gorau at Ann Humphreys sydd wedi bod yn anhwylus. Cydymdeimlodd â Betty ar farwolaeth Evan ddiwedd Awst.**

Sarah Jenkins o Llaeth Jenkins oedd ein gwraig wadd y noson.

Dechreuodd trwy rannu gwybodaeth amdani hi ei hun cyn symud ymlaen i adrodd hanes teulu Jenkins, Cerrigcaranau. Diddorol oedd clywed sut daeth y teulu i Gerrigcaranau Uchaf bum cenhedlaeth yn ôl ar ôl colli eu cartref yn ardal Llangeitho. Dechreuwyd y Fuches Caran yma – gwartheg duon Cymreig. Nawr mae ganddynt hefyd fuches Holstein sydd yn cynhyrchu y llaeth organig.

Yna symudodd ymlaen i sôn am sefydlu Llaeth Jenkins sydd wedi bod yn gymaint o lwyddiant. Cawsom ddisgrifiad o ddiwrnod gwaith arferol ar y fferm o'r godro i'r broses o roi'r llaeth yn y botel ac ymlaen i'r dosbarthu a'r cyflenwi. Sefydlwyd y Cwtsh llaeth yn Aberystwyth a Machynlleth sydd yn gwerthu y llaeth ac ysgytlaeth. Gwerthir mewn sawl siop lleol ac hefyd mae'r tai bwyta lleol yn gwneud cryn ddefnydd o'r llaeth yma.

Bu defnyddio offer technegol y Neuadd Goffa yn gaffaeliad mawr i'r noson wrth i ni werthfawrogi y gwahanol luniau ar y sgrin. Diolch i Mair ein trysorydd am ofalu fod yr offer yn gweithio i ni.

Cyflwynwyd a diolchwyd i Sarah gan Aileen. Trefnwyd y noson gan Betty ac Aileen.

Bydd ein cyfarfod nesaf ar 16 Hydref ac mi fuasai'n braf croesawu aelodau newydd.

# Cloddio ein hanes

### Tom Cosson yn helpu i gloddio ar Bendinas

**Efallai bydd rhai ohonoch wedi sylwi ar babell fawr wen ar gopa Pendinas yn ddiweddar. Nid safle glampio newydd sydd yno – ond safle cloddio archeolegol. Am dros fis, bu archeolegwyr o Ymddiriedolaeth Archeolegol Dyfed yn awyddus i ddarganfod mwy am y fryngaer Oes yr Haearn eiconig hon. 'Archeoleg gymunedol' oedd yr enw ar hyn, sef defnyddio cyfnod o gloddio i geisio ymgysylltu pobl leol a'u hanes. Ac yn sicr, bu'n dipyn o lwyddiant. Y prif ffocws oedd diwrnod yn yr Hwb, Penparcau lle cafwyd nifer o weithgareddau plant, darlithoedd, teithiau tywys i'r copa, a hyd yn oed cacen enfawr siâp bryngaer Pendinas! Elfen bwysig arall oedd recriwtio tîm o wirfoddolwyr brwd i wneud y gwaith caled i gyd! Ac fel rhywun sydd wedi graddio mewn Archeoleg ond heb ddilyn gyrfa yn y maes, roedd yn gyfle arbennig, lleol i gael f'atgoffa pam mae archeoleg yn bwnc mor ddiddorol i mi.**



Cafodd y safle ei gloddio nôl yn y 1930au gan ddarlithydd yn y Brifysgol, Daryll Forde. Llwyddodd i ddarganfod y rhagfur a ffos gynharaf y safle, yn dyddio yn ôl i tua 400CC, ar bwys mynedfa ddeheuol y fryngaer. Hefyd darganfuwyd tystiolaeth bod yr amddiffynfeydd wedi newid ac ehangu dros gyfnod cyn y ganrif gyntaf cyn Crist. Mae'n debyg nag oedd y safle yn cael ei defnyddio llawer ar ôl hynny. Yn anffodus, nid oedd technegau'r cyfnod gystal â heddiw, a doedd y gweithwyr ddim mor ofalus! Felly rhan bwysig o'r cloddio diweddar, a ddechreuodd yn 2021 am fis, oedd ail-ddadorchuddio'r lefelau a ddarganfuwyd gan Forde, i wneud yn siŵr bod ei gasgliadau yn gywir.

Ni ddisgwyliwyd darganfod llawer o wrthrychau, felly dim aur, arfau na sgerbydau! Yn y cyfnod hwnnw, roedd llawer o ddefnydd o bren, brwyn, lledr ac ati, pethau sydd ddim wedi para ym mhridd Pendinas. Er bod y trigolion yn defnyddio haearn a metelau eraill, prin a gwerthfawr iawn oedd rheiny, felly'r tueddiad oedd ailddefnyddio metel drosodd a throsodd. Ar ben hynny, am ryw reswm, stopiodd trigolion Cymru wneud crochenwaith am ganrifoedd – dirgelwch mawr!

Er hynny, cymdeithas soffistigedig oedd yno. Er mwyn trefnu cannoedd o weithwyr i adeiladu'r muriau a'r ffosydd enfawr, roedd rhaid cael system gymhleth i gynhyrchu digon o fwydydd iddyn nhw. Credir bod nifer o swyddogaethau gan fryngaerau – amddiffynnol wrth gwrs, ond hefyd roeddent yn ganolfannau masnachu, diwydiannol a chrefyddol yr ardal. Oherwydd maint Pendinas, a'i leoliad strategol yn edrych i lawr yr arfordir ac i fyny drwy sawl dyffryn, credir ei fod yn ganolbwynt neu'n bencadlys ar gyfer ardal ehangach. Mae cannoedd o fryngaerau ar draws Cymru; efallai bod rhai lleol, megis Caer Allt-Goch a Chaer Llety-Llwyd, yn rhan o wlad fechan a reolwyd gan Bendinas.

Roedd y cloddio yn 2021 a 2023 yn archwilio ardal ar bwys mynedfa'r de. Wrth dynnu'r haenau uchaf o bridd mwyaf diweddar, daeth tystiolaeth i'r amlwg. Roedd nifer o dyllau wedi cael eu creu yn y cerrig – 'postholes' – yn dangos yn glir lle safodd ffens neu wal bren. O gwmpas gwaelod llethr, safai draen wedi ei wneud o gerrig, i atal dŵr rhag rhedeg mewn i'r adeilad. Nid yw'r arbenigwyr wedi penderfynu eto beth yn union oedd defnydd yr adeilad. Yn 2021, darganfuwyd glain o jâd – carreg brin iawn – yn ogystal a phwysau gwŷdd. Gwrthrychau bychain iawn, ond mae'n nhw'n rhoi gwybodaeth werthfawr i ni am y gymdeithas hynafol a oedd yn byw yng Ngheredigion dros 2,000 o flynyddoedd yn ôl.

## Teyrnged i Richard Hamp (Rich Tŷ Gwyn)

**Ganed Rich Tŷ Gwyn ar y 15fed o Hydref 1946, ac fe'i magwyd yn Selsdon, De Llundain, gyda'i rieni a'i frawd John. Roedd yn mwynhau chwaraeon, yn enwedig rygbi a chlwydi, a bu'n cystadlu dros y sir. Roedd hefyd yn ffansïo ei hun fel dipyn o actor ac wedi perfformio fel "Ratty" mewn cynhyrchiad o 'The Wind in the Willows'. Nid oedd yn hoffi'r ysgol, felly gadawodd yn 16 oed a gweithio fel rhedwr i'r BBC.**



Yn y 70au cynnar penderfynodd Rich adael Llundain. Daeth ei deithiau trwy Gymru i ben yn Bont-goch, lle daeth ar draws bwthyn adfeiliedig. Prynodd Tŷ Gwyn oddi wrth Reg Price, Pantyffynnon a ddaeth yn ffrind da iddo. Treuliodd Rich flynyddoedd lawer yn adnewyddu Tŷ Gwyn tra hefyd yn helpu Reg ar ei fferm. Gweithiodd Rich i'r teulu Hughes yn Leri Mills hefyd, ac i Howard Ovens, lle plannodd filoedd o goed *Leylandii* yn Nhan-y-Cae. Bu hefyd yn gweithio yn Y Llew Du a'r Llew Gwyn yn Nhalybont. Dysgodd Rich ei sgiliau trydanol pan yn gweithio gyda Tegwyn y Trydanwr, a ddatblygodd hefyd ei sgiliau plymio ac adeiladu yn ystod y gwaith o adnewyddu Tŷ Gwyn. Nid oedd llawer na allai Rich droi ei law ato.

Byddech yn gweld Rich yn gyson ar y ffordd o Bont-goch i Dal-y-bont yn cerdded gyda'i gi Jig neu ar ei foped neu ar ei feic. Bydd llawer o bobl yn cofio'r partïon canol haf yn Nhŷ Gwyn, a chynhaliodd Rich ddwy wledd briodas yno, un Barry a Denise Morgan (a Rich yn was priodas), a'r llall i Geraint a Sharon Lewis.

Roedd Rich pob amser yn helpu pobl. Yn fuan wedi symud i mewn i Dŷ Gwyn, bu'n helpu ei gymdogion ym Moelgolomen gydag wyna, cneifio ("Pitch!"), bagio byrnau mawr silwair, ac adnewyddu Tŷ Newydd, a daeth yn ffrind agos i'r teulu.

Bu Rich hefyd yn gweithio gyda fy nhad, Dai Rich, a dyma sut y des i i'w nabod am y tro cyntaf. Dechreuais weithio gyda Rich tra fy mod yn dal yn yr ysgol yn ôl yn 1984, pan oeddwn ond yn fachgen 15 oed. Cwrddais i a Rich pan ddaeth i fy nôl i weithio ar fore Gwener pan oeddwn yn cael diwrnod o'r ysgol.

Tasg fwyaf y dydd oedd cael Jig allan o'r *passenger seat*! Os oes unrhyw un ohonoch yn cofio Jig, fe fyddwch chi'n gwybod ei bod hi'n hynod amddiffynnol o Rich a'i eiddo. Fe wnaeth Rich a minnau ddod ymlaen yn syth. Roedd y ddau ohonom yn gallu meddwl y tu allan i'r bocs ac roedd Rich yn gadael i mi fynegi fy marn er fy oedran ifanc. Dysgais lawer o bethau gan Rich yn ystod y dyddiau cynnar hynny yr wyf wedi eu defnyddio dros y blynyddoedd. Gallwch ddod ymlaen yn dda gyda phobl yn y gwaith, ond anaml y mae'n troi'n gyfeillgarwch gydol oes fel y gwnaeth gyda ni.

Rydw i hefyd yn mynd i gymryd y clod am gyflwyno Rich i fy Anti Mags ar ddiwedd yr 80au. Gwnaed llawer o waith yn Nhŷ Gwyn i droi'r tŷ yn gartref i'r cariadon dros y 30 mlynedd diwethaf, ac yn 2019 fe wnaethon nhw briodi (hen bryd yn fy marn i!).

Yn dilyn sawl gwyliau cwch camlas, ymunodd Rich (a Mags) â Chymdeithas Camlesi Swydd Amwythig yn 2004. Doedd hi ddim yn hir cyn i'w wybodaeth a'i arbenigedd ddod i'r amlwg. Cymerodd rôl Swyddog Lles, a daeth yn Gadeirydd y Gymdeithas yn 2017. Mae'n gadael gwaddol ar ei ôl o adfer camlesi hanesyddol a fydd yn cael ei fwynhau gan genedlaethau i ddod.


Derbyniodd Mags nifer o negeseuon o gydymdeimlad dros yr wythnosau diwethaf, a'r peth sy'n dod i'r amlwg ym mhob un oedd y parch mawr oedd gan bawb at Rich. Nid ydym yn dod ar draws cymeriadau tebyg yn aml, ac mae'n bwysig ddathlu bywyd cyfoethog y dyn unigryw, caredig, a dawnus yma, sef Rich Tŷ Gwyn, fy Wncl, Rich.

Barry Williams

# Ysgol




**Pont yr Wylfa – Anturiaethau Seren a Sbarc**



**Gweithdy animeiddio**



**Tacluso'r ysgol**

## Ysgol y Gymuned

### Pont yr Wylfa

Yn aml iawn mae prosiectau'n cael eu hanelu ar gyfer plant hŷn yr ysgol, ond ym mis Medi daeth cynnig arbennig i Ddosbarth Mynydd Gorddu fod yn rhan o gynllun i greu 6 stori gadwyn am Anturiaethau Seren a Sbarc yng Ngheredigion! Seren a Sbarc yw dau gymeriad hoffus sy'n hyrwyddo amcan Y Siarter Iaith Genedlaethol. Er bod y prosiect yn heriol roedd yn gyfle da i ddod i adnabod yr ardal leol yn well a chydweithio gyda'n ffrindiau yn Ysgol Craig yr Wylfa. Dewis y plant oedd mynd i Garej Davmor yn y pentref a chreu stori gyffrous am sut wnaeth Seren a Sbarc helpu Ben. Da iawn chi blant ac rwy'n siŵr y bydd pawb yn edrych ymlaen i weld sut fydd y stori'n datblygu nesaf. Roedd y weithgaredd yma'n rhan o'n gwaith i sicrhau medal arian y Siarter Iaith eleni.

### Partneriaid

Hoffwn i ddiolch yn fawr i rieni a ffrindiau'r ysgol am ein helpu i dacluso'r ysgol yn ddiweddar. Diolch yn arbennig i aelodau'r Clwb Ffermwyr Ifanc am bob cymorth – roedd hi'n hyfryd i weld cyn-ddisgyblion a'u ffrindiau nol yn yr ysgol.

### Cogurdd

Mae cystadleuaeth Cogurdd yr Urdd yn mynd o nerth i nerth. Eleni fe wnaeth wyth o blant gystadlu mewn cystadleuaeth safonol iawn ac roedd pob salad yn edrych yn flasus iawn. Diolch yn fawr i Mrs Jones a Mrs James y gegin am feirniadu ac roedden nhw wrth eu boddau gyda'r creadigrwydd. Yn ôl Mrs Jones roedd hi'n agos iawn ar y brig ond llongyfarchiadau mawr i Teal am ennill eleni. Bydd hi'n cynrychioli'r ysgol yn rownd derfynol Ceredigion cyn hir – da iawn ti, tipyn o gamp yn wir.





**Ffair Iaith**

# Tal-y-bont

**Ysgol Ddigidol**

**Dewiniaid Digidol**
Rydym yn ffodus iawn ein bod wedi llwyddo i barhau gyda'r gweithgareddau digidol yn ystod y mis. Diolch yn fawr i Minnie a Blythe (Dewiniaid Digidol yr ysgol) am drefnu gweithgaredd ddiddorol i weddill yr ysgol ar sut i animeiddio gan ddefnyddio rhaglen gyfrifiadurol. Da iawn ddewiniaid!

**Animeiddio**
Ac fe gafodd Dosbarth Allt y Grib gyfle gwych i ddysgu mwy am animeiddio gyda'r arbenigwr Charlie Carter fel rhan o brosiect mawr sy'n anelu i greu ffilm am Blwyf Llangynfelyn. Bydd animeiddio'r plant yn cael eu cynnwys yn y ffilm sy'n gyffrous iawn. Diolch o galon i Mrs Nelmes am drefnu'r weithgaredd i ni a diolch i Gronfa Leri a Chronfa Anna Evans am y nawdd.

**Gweithdy GIFs**
Mae'r oes technolegol yn agor drysau cyson i gyflwyno sgiliau newydd i'r plant. Fel rhan o weithgareddau Siarter Iaith Ceredigion cynhaliwyd gweithdy rhithiol i greu GIFs gan Sioned Young o Gwmni Mwydro. Defnyddiwyd gwefan arbennig o'r enw Kleki i greu'r GIFs ac roedd yn weithdy heriol ond cyffrous iawn. Y syniad oedd tynnu sylw at nodweddion ein hardal ni ac am gynefin yr ysgol i hyrwyddo Ceredigion i'r byd ar betws ar y cyfryngau cymdeithasol!

**Ffair Iaith**
Hefyd yn gysylltiedig â Gweithgareddau Siarter Iaith Ceredigion trefnwyd Ffair Iaith i ddangos y cyfoeth o wahanol gyfleoedd sydd o ddefnyddio'r Gymraeg yn y gymuned. Gwahoddwyd ysgolion ardal Aberystwyth i Ganolfan Hamdden Plascrug i fwynhau diwrnod arbennig iawn. Cafwyd gweithdai clocsio, creu podlediad, cyfle i fod yn DJ, gwrando ar y ddigrifwraig Melanie Owen a gweithdy drama gan Theatr Felin-fach. Ond mae'n siŵr taw'r uchafbwynt oedd profi dawn Mr Phormula gyda'i hip-hop byrfyfyr – gwych iawn! Dyma gyfle da arall i gwrdd â'n ffrindiau yn Ysgol Craig yr Wylfa fel rhan o gynllun Pont yr Wylfa.

**Mis Medi**
Braf cael dweud bod pawb wedi setlo'n dda yma ar ôl gwyliau'r haf. Pob hwyl i blant Blwyddyn 6 llynedd wrth iddyn nhw ddechrau yn yr ysgolion uwchradd a llongyfarchiadau mawr i'r cyn ddisgyblion ar lwyddo mewn gwahanol arholiadau dros yr haf a symud i golegau ar hyd a lled y byd! Pob hwyl i chi gyd yn y dyfodol.


**Gweithdy GIFs**


**Ffair Iaith**

Llongyfarchiadau mawr i bawb sydd wedi ennill gwobrau mewn sioeau ac eisteddfodau dros yr haf hefyd.







# Yn NATURiol



Chwiwell

Mae'r hydref yn amser prysur i adar mudol ac ar gyfer gwaith rheoli yng Ngwarchodfa Ynys-hir. Wrth i'r rhan fwyaf o'r adar sy'n nythu ar y warchodfa gychwyn ar eu taith tua'r de mae ymwelwyr o'r gogledd yn cymryd eu lle. Mae niferoedd mawr o hwyaid sy'n gaeafu yn cyrraedd gyda channoedd o chwiwellod a chorhwyaid yn ogystal â nifer fechan o Hwyaid Cynffonfain a Hwyaid Llydanbig. Mae adar hirgoes hefyd yn symud drwy'r warchodfa, dros yr wythnosau diwethaf rydym wedi gweld y Rhostog Gynffonddu a'r Rhostog Gynffonfraith, y Pibydd Torchog, Pibydd, Pibydd Gwyrdd, Pibydd Coeswyrdd, Pibydd y Mawn, Pibydd bach a hyd yn oed Pibydd Lydandroed Llwyd sy'n brin. Bydd mwyafrif yr adar hyn yn gwneud eu ffordd i dde Ewrop ac Affrica ar gyfer y gaeaf, gan fwydo yn Afon Dyfi i gryfhau ar gyfer cymal nesaf eu taith. Maen nhw i gyd yn cael eu cadw ar flaenau'u traed gan yr Hebog Tramor benywaidd mawr sy'n treulio llawer o'i dyddiau'n clwydo ar y morfa heli, yn aros am gyfle i ymosod ar yr heidiau o adar llai.



Gïach

Yn yr hydref mae llawer o waith rheoli ar y gweill, ynghyd â thopio'r caeau a chynnal a chadw'r safle, rydym hefyd wedi bod yn goruchwylio rhai newidiadau mawr ar ran o'r gyforgors a'r coetir gwlyb. Mae dau gloddiwr wedi bod yn adeiladu byndiau o amgylch rhannau o wlyptiroedd a oedd dros y blynyddoedd diwethaf wedi bod yn sychu ac yn gordyfu. Bydd y byndiau hyn yn cadw dŵr, gan helpu i adfer yr ardaloedd yn ôl yn gors a chreu rhywfaint o goetir gwlyb o amgylch yr ymylon. Ar yr un pryd mae contractwyr wedi bod yn clirio prysgwydd helyg i agor y system pyllau a chysylltu ardaloedd corsiog y warchodfa â chynefinoedd gwlybtir eraill yn well.



Pibydd bach

Yn y ganolfan ymwelwyr mae'r ffair grefftau bellach wedi agor gydag amrywiaeth o gynnyrch lleol i'w gweld wrth i chi gynhesu gyda choffi ar ôl taith gerdded iachus o amgylch y llwybrau.

## TEYRNGED: Evan Jenkins, Pengwern

**Ganwyd Evan ym Mhontrhydfendigaid ar 23 Mai 1942 ac fe'i magwyd ym Mhwllpridd, Lledrod, yn fab ieuengaf o saith o blant y diweddar Gruffudd James Jenkins, a oedd yn un o deulu'r Winllan, a Mary Jane ei wraig, hithau'n ferch i deulu Carregcadwgan.**



Evan yn llywydd Sioe Tal-y-bont yn 2018

Cafodd ei addysg yn Ysgol Gynradd Lledrod ac yna ymlaen i Ysgol Uwchradd Tregaron. Gadawodd yr ysgol yn 16 oed a mynd draw i helpu ei ewythr Evan Hughes i ffermio Carregcadwgan.

Ymhen ychydig, ymunodd â Chlwb Ffermwyr Ifanc Tal-y-bont lle y bu'n cymryd rhan mewn amryw gystadlaethau. Yna cyfarfu â Betty mewn Twmpath Dawns, yn y cyfnod pan oedd bri ar dwmpathau. Priododd y ddau yn Hydref 1964 a ganwyd iddynt tri o blant, Delyth, Meinir ac Aled.

Ar ôl colli ei ewythr yn 1969, bu Betty ac yntau yn ffermio gyda'i gilydd yn Ngharregcadwgan a threulio bron hanner can mlynedd yno cyn ymddeol a symud i Pengwern yn y pentre.

Dyn ei filltir sgwâr oedd Evan ond byddai'n mwynhau mynd ar ambell i drip nawr ac yn y man. Roedd yn aelod gweithgar o bwyllgor Sioe Tal-y-bont ac yn un o brif stiwardiaid adran yr hen beiriannau am flynyddoedd. Braint iddo oedd bod, gyda Betty, yn llywydd y Sioe yn 2018.

Roedd hefyd yn aelod o Gymdeithas Treialon Cŵn Defaid Tal-y-bont ac yn mynychu'r Treialon yn rheolaidd bob blwyddyn. Yn ystod rhai misoedd y gaeaf byddai'n hoffi mynychu'r Gymdeithas Hanes yn Llanddeiniol.

Roedd Evan yn gymeriad ffein iawn ac wrth ei fodd yng nghwmni ei deulu a sgwrsio gyda ffrindiau ac yn falch bob amser i wneud cymwynas.

Cafodd angladd barchus yng nghapel Bethel dan ofal y Parch. Wyn Thomas, gydag Elisabeth James wrth yr organ. Traddodwyd y deyrnged gan Beti Griffiths.

keep at it
dal ati
Dydd Sadwrn 1af a 3ydd y mis
10.30 - 11.30
Grwp sgwrsio Cymraeg – addas i bob lefel
Sesiynau byw yng Nghletwr
www.cletwr.com
01970 832 113 cletwr@cletwr.com
Cletwr




**Fe gafodd holl griw Cletwr sioc enfawr pan glywsom am farwolaeth sydyn ac annisgwyl Derv yn ddiweddar. Roedd hi'n gyn-aelod o staff y gegin ac, ar ôl iddi ymddeol, daeth hi nôl fel gwirfoddolwr ac aelod o fwrdd Cletwr. Colled fawr i bawb. Bydd teyrnged lawn iddi yn rhifyn nesaf Papur Pawb.**

Er bod y plant wedi mynd nôl i'r ysgol, mae'r caffi wedi parhau yn dra phrysur, gydag ymwelwyr yn mwynhau gwyliau hwyr yn yr ardal. Ond mae hi'n dawelach ar ôl ein haf prysur arferol. I ddathlu diwedd yr haf, a chyfle i ni ymlacio tipyn, cynhaliwyd parti bach i'n staff a gwirfoddolwyr yn y caffi yng nghanol mis Medi. Cyfle i ni oll gymdeithasu gyda'n gilydd, yn hytrach na rhedeg o gwmpas gyda phlatiau o frecwast drwy'r amser (ond gyda gwên, wrth gwrs!). Diolch yn fawr iawn i Cath Lloyd Williams a'i chynorthwywyr am baratoi bwffe mor swmpus.

Trefnwyd sawl digwyddiad yn ystod y mis: mwy o waith ar y prosiect animeiddio, a noson wych gan Milly Jackdaw, oedd yn adrodd doethineb straeon coed afalau o Gymru, Iwerddon a Kazakhstan. Bydd nifer o ddigwyddiadau rheolaidd yn parhau fel arfer yn ystod yr Hydref: Sesiynau Dal Ati i helpu dysgwyr, Sesiwn Gwau a Chlonc, a'r Clwb Celf Ieuenctid Ddydd Sul – gweler *Facebook* am fanylion.

Agorir arddangosfa gelf newydd ar 19eg o Hydref yn y Cwtsh, a fydd yn dathlu deng mlynedd o arddangosfeydd yn Cletwr, felly dyma arddangosfa ôl-syllol, gyda gwaith gan 28 artist sydd wedi dangos eu gwaith dros y blynyddoedd.

Mae gwaith yn yr ardd yn tawelu hefyd. Diolch o'r galon i'n grŵp garddio sydd wedi bod mor ymroddedig dros y haf, yn sicrhau bod popeth yn edrych yn ddeniadol, ac yn dod allan bob diwrnod (rhwng y glaw) i ddyfrio popeth.

Mae staff y siop nawr yn prysur baratoi ar gyfer y N*****g (peidiwch â dweud y gair!). Gobeithio trefnir ein noson siopa hwyr, a ffair grefftau arferol. Manylion yn y man.

Rydym yn dra gwybodus o broblemau ariannol sy' gan bawb ar hyn o bryd. Mae prisiau yn codi drwy'r amser, gan gynnwys y prisiau rydyn ni'n talu i'n darparwyr. Ond, ydych chi'n gwybod am ein cynllun prynu mewn swmp? Rydym yn hapus i archebu nwyddau oddi wrth ein darparwyr ar eich rhan chi, am bris gostyngedig. Fel arfer rhaid i chi brynu bocs neu hanner bocs, ond os ydych chi'n prynu rhai pethau yn rheolaidd, efallai byddai'n werth chweil ichi ystyried hyn. Fel arfer, mae modd archebu unrhyw beth sydd ar gael gan y cyfanwerthwr, dim yn unig y nwyddau rydyn ni yn eu stocio. Gofynnwch yn y swyddfa am fanylion.

Ydych chi wedi dod i'r caffi i flasu rhai o brydiau arbennig amser cinio mae Emma wedi bod yn coginio? Mae'n werth taith arbennig! Ond mae'r gegin dal ar gau ddydd Llun a dydd Mawrth, cofiwch, dim ond diodydd, cacennau a brechdanau sydd ar gael.

Tan fis nesaf, mwynhewch yr Hydref.

NC

## UN DYN – UN JOB

**Yn Medi 1974 cychwynnodd Geraint Jenkins, gŵr ifanc deunaw mlwydd oed ar ei swydd gyntaf yn y Lolfa, Tal y Bont. A nawr yn 2023 mae'n ymddeol o'i waith yn y wasg ar ôl deugain a naw o flynyddoedd o wasanaeth di-dor.**




Sefydlwyd Y Lolfa ganol y chwedegau mewn cyfnod o hwyl a phrotest pan oedd cenhedlaeth newydd o bobl ifainc yn hawlio lle i'r Gymraeg ym mhob agwedd o fywyd. Roedd llyfrau Cymraeg ar y pryd yn bethau digon diflas, ac yr oedd yn rhan o weledigaeth y cwmni i greu math newydd o gyhoeddi oedd yn fywiog, heriol, lliwgar a phoblogaidd.

Wedi cyfnod yn Ysgol Gyfun Aberaeron a chwrs mewn ffotograffiaeth yn y Coleg Addysg Bellach, roedd Geraint yn chwilio am waith. Mae'n gweld hysbyseb y Lolfa am dechnegydd/argraffydd, gwneud cais ac yn dilyn cyfweliad gan Robat yn cael ei benodi. Cartref y fusnes yr adeg hynny oedd yr Emporiwm yng ngwaelod y pentref a dim ond tri aelod o staff – Elwyn Ioan fel dylunydd, Rita Llwyd yn deipyddes a Geraint yn edrych ar ôl y peiriant offset-litho. Roedd y dull newydd hwn o argraffu yn greiddiol i ddatblygiad y fenter, dull a gynigai rhyddid a chyfle i arbrofi. Yn y dyddiau cynnar mae Geraint yn cofio gorfod troi ei law at dipyn o bob peth gyda'i alluoedd peirianyddol yn sicrhau fod y wasg fechan yn gyson weithio a'r llyfrau'n ymddangos.

Erbyn dechrau'r wythdegau roedd y safle gwreiddiol yn rhy fach a symudodd Y Lolfa i'w chartref presennol yn hen orsaf yr heddlu. Cartref newydd a llif o beiriannau newydd pob un yn fwy o faint ac yn fwy cymhleth na'r rhai cynt. Er fod y dechnoleg yn ei hanfod yr un fath roedd cyfrifiaduron wedi disodli'r teipiadur a gwaith sgrin a chamera yn allweddol i greu'r platiau argraffu. Penllanw'r cyfan oedd buddsoddi mewn peiriant enfawr argraffu pedwar lliw – anghenfil 20 troedfedd yn pwyso 12 tunnell. Byddai Geraint yn derbyn hyfforddiant ar ofynion un peiriant ar ôl y llall gyda'r un nod – cadw'r olwynion i droi wrth i'r Lolfa argraffu a chyhoeddi mwy o lyfrau a deunydd arall.

Mae Geraint yn sôn am ddau reswm dros y gofynion am gysondeb peirianyddol. Yn gyntaf roedd y cyfan yn fuddsoddiad gwerth cannoedd o filoedd a'r peiriannau ond yn talu am eu lle wrth i'r papur hedfan drwyddynt. Yn ail, yr ychwanegiad aruthrol yn y deunydd argraffu. Cam pwysig yn 1974 oedd sefydlu Papur Pawb, papur bro cymunedol cyntaf Cymru. Erbyn hyn mae'r Lolfa yn argraffu dros ugain o bapurau bro yn fisol – ffon fara allweddol i'r cwmni a phob un yn gorfod ffitio'n daclus i amserlen bendant. Gogyfer â Nadolig eleni mae'r Lolfa yn paratoi i gyhoeddi 23 o gyfrolau a phob teitl yn gorfod ymddangos mewn pryd i fachu pryniant yr Ŵyl. Mae hyn oll yn gofyn am gadw at dedlein ac yn sgil profiad o bron hanner canrif o weithio gyda'r inc a'r oel, y platiau a'r negatifau mae galluoedd Geraint yn hollbwysig. Mae'n berson di-gynnwrf, person naturiol i ddelio gyda creisis mewn modd effeithiol a thawel.

Felly dros ddeugain a naw o flynyddoedd mae Geraint wedi gyrru o'i gartref yn Llanon i Dal y Bont cyfanswm o bron hanner miliwn o filltiroedd! Mae'n ddigon hawdd ei adnabod wrth y llyw – rhif y car yw J11 NCS!

A beth am gynlluniau wedi ymddeol? Mae Geraint wedi prynu motorhome ac eisoes yn trefnu ymweliadau. Pan ofynnais a oedd yn bwriadu mynd dramor daeth yr ateb ar unwaith – "dim o gwbl, mae Cymru yn ddigon da i fi!" Yn naturiol bydd yn cadw cysylltiad gyda'i ffrindiau a chyd-weithwyr gan addo cymorth parod os fydd un o'r angenfilod mecanyddol yn pallu. Mae un peth yn sicr – o wasanaethu mewn un lle dros gyfnod mor hir mae'n rhaid fod Geraint Jenkins, y gŵr caredig a hawddgar wedi mwynhau ei waith. Llongyfarchiadau iddo a dymuniadau gorau ar yr ymddeoliad.

*GIE*

# Chwaraeon a Hamdden

## ANGHENFIL O RÂS

**'Anghenfil o râs' oedd disgrifiad Gruff Lewis, Tal-y-bont, wedi iddo gwblhau Râs Ironman Cymru 2023 a gynhaliwyd yn Ninbych-y-Pysgod, sir Benfro ar 3-4 Medi. Gruff oedd y Cymro cyntaf i groesi'r llinell mewn amser o 10 awr 1 munud a 33 eiliad, gan ddod yn bumed o blith y 3,000 o athletwyr, yn ddynion a menywod, a fu'n cystadlu.**



Gruff yn cael ei gyfweld ar gyfer S4C wedi'r râs.

Mae Ironman Cymru yn cynnwys tair camp treiathlon sef nofio yn y môr am 2.4 milltir, seiclo mynydd am 112 milltir a râs marathon o dros 26 milltir. Roedd disgrifiad Gruff yn ddisgrifiad perffaith o'r cyfan.

Yn ogystal a dod yn bumed o'r Cymry a fu'n cystadlu, daeth Gruff yn gyntaf yn y categori ar gyfer athletwyr hŷn.

### TÎM PÊL-DROED DAN 11 OED

Hoffai tîm pêl-droed dan 11 oed Tal-y-bont ddiolch yn fawr i wasg Y Lolfa am noddi eu cit newydd.

[Llun ar ben tudalen 1]





Adweitheg
(Reflexology)
Bethan Ifan – Aberystwyth
07375 422 608

Rhian
trin gwallt gartref
25 mlynedd o brofiad
gwasanaeth cyfeillgar, dibynadwy
ffôn 832 612
07835 525 553








## ANRHYDEDDU BRYN


Bryn Smith, Dai Alun Jones a Rolant Ellis ( a dderbyniodd dlws hefyd).

**Mae Bryn Smith wedi bod yn un o hoelion wyth pêl-droed Tal-y-bont a'r gêm yng Nghanolbarth Cymru ers blynyddoedd lawer. Roedd yn llawn haeddu felly gael ei gydnabod am ei gyfraniad gan Gymdeithas Pêl-droed Cymru mewn seremoni a gynhaliwyd yn Aberystwyth ar 29 Medi.**

Cyflwynwyd iddo dlws Gwasanaeth Hir 40 mlynedd gan Y Gymdeithas Bêl-droed gan Dai Alun Jones, Aberystwyth, a oedd yn cynrychioli'r Gymdeithas.

Dechreuodd Bryn ei yrfa gyda thîm pêl-droed Tal-y-bont pan ail-ffurfiwyd y clwb yn 1973. Yn ogystal â bod yn flaenwr medrus a sgoriodd goliau dirifedi, gwasanaethodd hefyd fel ysgrifennydd y clwb. Gwasanaethodd hefyd fel trysorydd y Cynghrair lleol gan hefyd gweithredu fel cynrychiolydd gweithgar ar Bwyllgor Cymdeithas y Canolbarth. Ef hefyd yw trysorydd Cwpan Ceredigion (Cwpan Dai Dynamo Davies) pryd y daw timau cynghreiriau de a gogledd y sir at ei gilydd i gystadlu.

Er ei fod bellach yn byw yn y plwyf drws nesaf i Dal-y-bont, mae'n amlwg fod ei galon yn dal i fod yn  y pentref.

Llongyfarchiadau iddo ar ei anrhydedd.

## LLE MAE DAFYDD?

**Mae *Papur Pawb* wedi bod yn dilyn hynt a helynt y morwr mentrus Dafydd Hughes, Tal-y-bont, sydd ar hyn o bryd yn hwylio rownd y byd yn ei gwch 'Bendigedig'.**

Erbyn hyn mae yn ne Môr yr Iwerydd ac wedi croesi llinell Trofan Capricorn, gan anelu at gyrraedd Penrhyn Gobaith Da cyn bo hir.

Mae modd cadw llygad ar daith Dafydd drwy y dudalen 'Bendigedig Sailing' ar Gweplyfr (*Facebook*). Pob dymuniad da iddo ar ei daith.